Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd:

4 Awst 2020

Annwyl Rebecca

**Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru – Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Yn ein cyfarfod ar 3 Awst 2020, gwnaethom drafod datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, gan nodi'r ffaith y bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Deddf 2018), a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

Yn ogystal, gwnaethom nodi bod y Rheoliadau hyn yn defnyddio pwerau yn Neddf 2018 i gywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE sy'n rheoleiddio effaith amgylcheddol caffael cerbydau yn y sector cyhoeddus a chyfleustodau, a hynny er mwyn sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoleiddio caffael cyhoeddus perthnasol mewn cysylltiad â cherbydau yn parhau i weithredu'n gywir ar ddiwedd y cyfnod pontio.

O ran egluro pam y rhoddodd Llywodraeth Cymru ei chydsyniad i'r cam o wneud y Rheoliadau hyn, i'r graddau y maent yn effeithio ar faterion datganoledig, mae'r datganiad ysgrifenedig yn cynnwys y brawddegau a ganlyn:

> "Gan fod y cywiriadau sy'n cael eu cynnig yn rhai technegol eu natur, nid oes gwahaniaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran eu polisi ar y diwygiadau ac ni ystyrir bod sylwedd y diwygiadau'n wleidyddol sensitif. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd arnynt."

Ychydig iawn o fanylion sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad ysgrifenedig, ac nid yw'r datganiad yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol y Senedd na pha rai o bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru, os o gwbl, y mae'r Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt, sy'n un o ofynion Rheol Sefydlog 30C.3(ii).

Yn ogystal, rydym yn nodi y cafodd y Rheoliadau eu gosod gerbron Senedd y DU ar 13 Gorffennaf 2020, ac fe'u tynnwyd yn ôl yn dilyn hynny ar 15 Gorffennaf 2020. Gosodwyd rheoliadau newydd ar 15 Gorffennaf 2020. Yn sgil y datganiad ysgrifenedig, nid yw'n glir a

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi ei chydsyniad i'r fersiwn ddiweddarach, gyfredol o'r Rheoliadau.

Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn darparu eglurhad brys ynghylch pa rai o bwerau deddfwriaethol y Senedd neu ba rai o bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru, os o gwbl, y mae'r Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English